Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2022**
DYDDIAD	**31 Mawrth 2022**
GAN	**Lesley Griffiths, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi rhoi ei chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer gwneud Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2022 yn Senedd y DU. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig ar ran Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau yn ofynnol ar gyfer dau randdirymiad ar gyfer defnyddio cynhyrchion anorganig ym maes cynhyrchu organig. Mae'r rhain ar gyfer cywennod a gwm gellan.

O dan Reoliad (EC) Rhif 889/2008 yr UE a gadwyd, caniatawyd rhanddirymiad i ganiatáu defnyddio cywennod anorganig tan 31 Rhagfyr 2020 ac ar gyfer gwm gellan anorganig tan 31 Rhagfyr 2021. Mae'r ddau randdirymiad bellach wedi dod i ben, ond nid oes digon o gyflenwadau o'r ddau gynnyrch hyn o hyd. Mae hyn wedi golygu bod angen ailgyflwyno rhanddirymiad.

Er bod y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig o ran cymhwysedd, mae'r rheoliadau hyn yn fach ac yn dechnegol eu natur. Felly, mae'n hwylus cyflwyno Offeryn Statudol ar gyfer Prydain gyfan y tro hwn.